# Ymateb i Gynllun Blynyddol Ofcom 2021/22

## <u>Perthynas Llywodraeth Cymru ag Ofcom</u>

Mae'r angen i ymgysylltu'n gyflym ac yn effeithlon â'n rhanddeiliaid allweddol fel y gallwn ymateb yn gyflym i effaith pandemig y COVID-19 byd-eang wedi amlygu gwerth perthynas gref ac effeithiol rhwng Llywodraeth Cymru ac Ofcom. Rydym am adeiladu ar ein perthynas gadarnhaol ag Ofcom yng Nghymru yn 2021/22 a chryfhau cysylltiadau ag arweinwyr polisi yn ganolog.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gysylltu'n agos â David Jones fel Aelod o Fwrdd Ofcom dros Gymru i sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu cynrychioli'n briodol ar Fwrdd Ofcom. Rydym yn cydnabod cyfraniad amhrisiadwy Pwyllgor Ymgynghorol Ofcom i Gymru; Aelod o Fwrdd Cynnwys Cymru; ac Aelod Panel Defnyddwyr Cyfathrebu Cymru.

Nodwn yr ymrwymiad yn y cynllun gwaith arfaethedig i barhau i adolygu lle mae staff wedi'u lleoli a sicrhau bod gweithlu Ofcom yn adlewyrchu pobl a safbwyntiau o bob rhan o'r DU gyfan. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i nodi cyfleoedd i gynyddu nifer yr unigolion yng Nghymru i sicrhau bod gan y swyddfa ddigon o adnoddau ac i gynyddu ei gwelededd yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd wrth i'r sefydliad gymryd dyletswyddau newydd ac yng nghyd-destun cyfrifoldebau rheoleiddio ychwanegol yn dilyn y cyhoeddiad bod Llywodraeth y DU wedi penodi Ofcom fel y rheoleiddiwr niwed ar-lein.

*Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth*

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r ymgysylltu cadarnhaol hyd yma ag Ofcom ar yr adolygiad o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth sy'n amlinellu'r berthynas rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Senedd Cymru ac Ofcom.

Bydd yr adolygiad yn cael ei gwblhau yn ystod yr wythnosau nesaf a'n nod yw cryfhau elfennau o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth er mwyn atgyfnerthu ein rôl o ran pennu blaenoriaethau strategol Ofcom mewn perthynas â'i weithgareddau yng Nghymru. Byddem yn disgwyl y bydd cyfleoedd yn parhau i gael eu hystyried er mwyn cryfhau a diffinio ein perthynas ag Ofcom ymhellach, drwy'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ac yn gyffredinol, gan gydnabod annibyniaeth Ofcom oddi wrth y llywodraeth, yn y dyfodol.

**Cynllun Gwaith Arfaethedig 2021/22**

Y canlynol yw ymateb Llywodraeth Cymru i elfennau penodol o'r cynllun gwaith arfaethedig.

**Annog buddsoddiad mewn rhwydweithiau ffibr diogel cryf**

Er ein bod yn croesawu'r ymrwymiad i barhau i annog buddsoddi mewn defnyddio ffibr, yn ogystal â sicrhau bod rhwydweithiau ffibr yn gryf, yn ddiogel ac yn cael eu diogelu, rydym unwaith eto'n tynnu sylw at ein safbwynt na ddylai defnyddwyr, trigolion neu fusnesau mewn ardaloedd gwledig wynebu prisiau uwch am wasanaethau band eang a ffonau symudol, na'r rhai mewn ardaloedd trefol, yn enwedig gyda'r cymunedau hyn yn annhebygol o ddarparu amgylcheddau ffibr cystadleuol i ddarparwyr.

Felly, rydym yn croesawu'r gwaith parhaus o fonitro gwahaniad BT Openreach a'r effaith gadarnhaol bosibl y gallai hyn ei gael ar ein cymunedau gwledig.

Rydym hefyd yn croesawu creu Strategaeth Symudol a byddem yn croesawu cyfle i gyfrannu at unrhyw waith a wneir.

**Darparu gwasanaethau band eang cyffredinol**

Unwaith eto, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i bryderu na fydd y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol yn darparu cysylltedd â chartrefi a busnesau yng Nghymru sydd fwyaf tebygol o gael eu hanwybyddu.  Nid yw'r cap ar gost adeiladau yn adlewyrchu realiti'r gost o ddarparu ateb band eang cynaliadwy yn ardaloedd mwyaf gwledig Cymru.

Dylai'r cynllun gwaith arfaethedig gynnwys ymrwymiad i adolygiad blynyddol o waith ac effeithiolrwydd yr USO ac addasu iddo.

Wrth weithredu'r gwasanaeth band eang cyffredinol, mae'r cynllun gwaith arfaethedig yn nodi y bydd Ofcom yn monitro gwaith BT a KCOM er ein bod yn croesawu'r ymrwymiad hwn, credwn fod angen canolbwyntio mwy ar eu gweithrediadau er mwyn sicrhau darpariaeth gynhwysfawr.

**Rhwydwaith Gwledig a Rennir**.

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r cytundeb ar y Rhwydwaith Rhannu Gwledig a'r effaith gadarnhaol y bydd ei gwasanaethau'n ei chael ar yr ardaloedd hynny ledled Cymru nad ydynt yn cael fawr ddim darpariaeth symudol ar hyn o bryd.  Fodd bynnag, gofynnwn i'r cynllun gwaith arfaethedig roi manylion rôl fwy cadarn a heriol i

Ofcom o ran sicrhau bod y prosiect yn cyflawni ei gynlluniau i ddileu nifer y "mannau gwan" ledled Cymru a'i fod yn fwy tryloyw wrth rannu data.

**Newid y PSTN**

Er bod trafodaethau rheolaidd wedi'u cynnal ynglŷn â newid y PSTN a chynnal sesiynau codi ymwybyddiaeth ar y cyd, mae nifer o bryderon o hyd ynghylch effaith y PSTN ar allu trigolion a busnesau i barhau i gysylltu â'r awdurdodau angenrheidiol os bydd toriad pŵer ac o'r effaith ar wasanaethau hanfodol i fywyd.  Deallir y bydd gofyniad gan ddarparwyr rhwydwaith i sicrhau mai amserlen fyr sydd i gysylltu â'r gwasanaethau brys, ond mae'n bwysig mynd i'r afael yn llawn â phob mater posibl.

Credwn y dylid cryfhau'r pwysau ar ddarparwyr rhwydwaith i sicrhau bod y broses o nodi ac unioni problemau yn ddiweddarach yn gadarn.

**Arloesedd 5G**

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu ymrwymiad Ofcom i annog partïon â diddordeb i edrych am ffyrdd arloesol o ddefnyddio technolegau 5G a thechnolegau eraill sy'n datblygu, megis LoRaWAN, yn enwedig mewn cymunedau gwledig. Mae hyn yn adlewyrchu uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ac mae lle i Ofcom a Llywodraeth Cymru gydweithio i greu'r amodau cywir i bartïon â diddordeb brofi a defnyddio technoleg arloesol yng Nghymru.

Dylai'r cynllun gwaith arfaethedig dynnu sylw at ymrwymiad i weithio gyda Llywodraeth Cymru i annog y defnydd o dechnolegau newydd yng Nghymru.

**Darlledu**

Ni fu gwerth darlledu i gynulleidfaoedd erioed yn gliriach. Mae'n hanfodol bod Ofcom yn parhau i gyflawni ei rwymedigaethau mewn perthynas â darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag ITV Cymru Wales, S4C a Channel 4. Nodwn waith parhaus i bennu a gorfodi safonau cynnwys. Un mater penodol a amlygwyd yng Nghymru yn ystod y misoedd diwethaf fu'r mater o gamadrodd gwybodaeth gan y darlledwr, gyda safbwynt Cymru ar argyfwng COVID-19 a chamau i gyfyngu ar ledaeniad y feirws heb ei drosglwyddo'n gywir. Mae hyn nid yn unig yn effeithio ar ddemocratiaeth yng Nghymru, ond mae iddo oblygiadau sylweddol o safbwynt iechyd y cyhoedd. Gofynnwn i Ofcom, fel rheoleiddiwr gwasanaethau cyfathrebu yn y DU sydd â rôl o ran cynnal safonau cywirdeb, ystyried eu hymateb i'r mater hwn mewn gweithgarwch sy’n cael ei gynlluio yn ystod 2021/22.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi gweithgarwch sy'n ymwneud â'r ymgynghoriad *Sgrin Fach: Dadl Fawr* ar ddyfodol darlledu gwasanaethau cyhoeddus, ar adeg dyngedfennol ar gyfer darlledu.  Rydym yn ceisio gweithio gydag Ofcom yn ystod y broses hon i gefnogi cyfundrefn reoleiddio sy'n datblygu sy'n cadw i fyny â chynnydd technolegol, gan newid arferion defnyddio cynnwys ac adlewyrchu dylanwadau byd-eang.  Rydym yn croesawu'r ymrwymiad i weithio gyda llywodraethau datganoledig

ar hyn i sicrhau bod unrhyw argymhellion a chynigion yn 2021 yn adlewyrchu anghenion a nodweddion Cymru.

Nodwn gynlluniau yn 2021/22 i adeiladu ar asesiad blaenorol Ofcom o berfformiad Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus i ystyried beth mae cynulleidfaoedd ei eisiau gan gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus dros y pump i ddeng mlynedd nesaf. Bydd yn hanfodol bod unrhyw waith yn cynnig digon o gyfleoedd i ymgysylltu â chynulleidfaoedd ledled y DU i dynnu sylw at wahaniaethau. Mae hyn yn cynnwys pwysigrwydd y Gymraeg i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd yng Nghymru.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ymateb i ymgynghoriad *Sgrin Fach: Dadl Fawr* Ofcom ar ddyfodol darlledu gwasanaethau cyhoeddus.

Croesawn y ffocws ar gynyddu amrywiaeth ym maes teledu a radio, sy'n flaenoriaeth allweddol i Cymru Greadigol ar gyfer y diwydiannau creadigol a darlledu yng Nghymru.

**Rôl Ofcom fel rheoleiddiwr allanol y BBC**

Nodwn gynlluniau i ystyried sut y dylai trwydded weithredu'r BBC ddatblygu i adlewyrchu'r byd digidol ac ar gyfer yr arolwg cyfnodol cyntaf o'r BBC, cyn arolwg canol tymor Llywodraeth y DU o'r Siarter. Rydym eisoes wedi croesawu sicrwydd Ofcom y bydd y Drwydded Weithredu a'r mesurau perfformio ar gyfer y BBC yn datblygu dros amser, ac y byddem yn disgwyl y bydd cyfleoedd i Lywodraeth Cymru ymgysylltu â'r gwaith hwn, i gefnogi Trwydded sy'n addas i'r diben yng Nghymru. Rydym hefyd yn ceisio sicrwydd bod camau gweithredu sy'n gysylltiedig â monitro ac adolygu darpariaeth y BBC fel y'u nodir yn y cynllun gwaith arfaethedig yn cynnwys asesiad o'r ddarpariaeth yng Nghymru.

**Trwyddedau**

Nodwn weithgarwch parhaus i gyhoeddi, rheoli a chynnal trwyddedau ar gyfer gwasanaethau darlledu teledu a radio. Ailadroddwn ddatganiadau blaenorol; pan gaiff trwyddedau teledu a radio ar gyfer gorsafoedd yng Nghymru eu dyfarnu neu eu hadolygu, dylid rhoi ystyriaeth briodol i natur ddwyieithog Cymru a phwysigrwydd y Gymraeg yng nghyd-destun nod Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, drwy nodi yn y contract y dylid darlledu nifer penodol o oriau yn Gymraeg ynghyd â datganiad am gynnwys Cymraeg ar y we, megis testun, ffrydio a chlipiau.

**Radio**

Mae pandemig COVID-19 wedi amlygu pwysigrwydd radio i ddiddanu a hysbysu cynulleidfaoedd yng Nghymru. Ni fyddai Llywodraeth Cymru am weld y rheolau lleol presennol ar radio masnachol yn cael eu llacio na'u dileu ymhellach.

Croesawodd rhanddeiliaid yng Nghymru y trwyddedau gwasanaeth cyfyngedig COVID-19 tymor byr brys a ddarparwyd gan Ofcom yn ystod 2020. Tynnwyd sylw at hyn yn adroddiad Senedd Cymru ar effaith yr achosion o COVID-19 ar newyddiaduraeth a'r cyfryngau lleol. Rydym yn croesawu'r bwriad i ddarparu trwyddedau gwasanaeth cyfyngedig newydd yn 2021/22.

Mae addasu Cronfa Radio Cymunedol Ofcom at ddibenion gwahanol a'r arian ychwanegol sydd ar gael ar gyfer trydedd rownd o gymorth i orsafoedd cymorth y mae COVID-19 yn effeithio arnynt hefyd wedi'i groesawu yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i weithio'n agos gydag Ofcom i sicrhau bod unrhyw gyllid sydd ar gael yn 2021/22 o fudd i orsafoedd radio cymunedol cymwys yng Nghymru.

**Niwed ar-lein**

Nodwn fod Llywodraeth y DU, ers cyhoeddi'r cynllun gwaith arfaethedig, wedi nodi ei chynlluniau manwl ar gyfer deddfwriaeth i amddiffyn pobl rhag niwed ar-lein ac wedi cadarnhau ei bwriad i benodi Ofcom yn rheoleiddiwr ar gyfer y drefn newydd hon. Byddai'n ddefnyddiol deall a yw Ofcom yn cynnig newidiadau pellach i weithgarwch 2021/22 nawr bod ei rôl wedi'i chadarnhau.

Bu ymgysylltu cadarnhaol hyd yma ag Ofcom ar y maes gwaith hwn ac mae'n hanfodol bod yr ymgysylltu hwn yn parhau o ddifrif gan fod Ofcom bellach wedi'i benodi'n ffurfiol fel bod gweithgarwch yn y dyfodol yn adlewyrchu blaenoriaethau yng Nghymru ac yn cydnabod gwahaniaethau mewn meysydd datganoledig, megis addysg a'r cwricwlwm, diogelu a'r Gymraeg. Wrth i ymchwil gael ei wneud yn y maes hwn, byddem yn disgwyl i hyn gasglu barn ac ymddygiadau ac agweddau ar-lein o bob rhan o'r DU.